Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Dai

28 Mawrth 2022

Yn bresennol

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Delyth Jewell | Senedd Cymru (Cadeirydd y sesiwn) |
| Jennie Bibbings | Shelter Cymru |
| Dewi John | Shelter Cymru |
| Roisin Willmott | Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol |
| Steve Porter | Cyngor Abertawe |
| Hugh Kocan | Sefydliad Bevan |
| Bill Rowlands | End Youth Homelessness Cymru |
| Bob Smith | Canolfan Gydweithredol y DU ar gyfer Tystiolaeth Tai (CaCHE) |
| Bonnie Williams | Cyfiawnder Tai Cymru |
| Hugh Russell | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Richard Hauxwell-Baldwin | Sefydliad Elusennol MCS |
| Jasmine Harris | Crisis |
| Jack Harries | Senedd Cymru (Swyddfa Vikki Howells AS) |
| Andrea Lewis | Cyngor Abertawe |
| Matt Harris | Home Buyers Federation |

**Ymddiheuriadau**

| **Enw** | **Rôl** |
|---|---|
| Mabon ap Gwynfor AS | Senedd Cymru (Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol) |
| Janet Finch-Saunders AS | Senedd Cymru |
| Peredur Owen Griffiths AS | Senedd Cymru |
| Vikki Howells AS | Senedd Cymru |

| Eitem ar yr agenda | Nodiadau |
|---|---|
| Croeso gan y Cadeirydd | Delyth Jewell AS yn croesawu pawb i'r cyfarfod, gan amlinellu'r agenda ar gyfer y sesiwn cyn trosglwyddo'r awenau i Roisin Willmott ar gyfer ei chyflwyniad. |
| Rôl y drefn gynllunio yn y broses o fynd i'r afael â'r argyfwng tai | Roisin Willmott yn dechrau ei chyflwyniad drwy roi trosolwg byr o'r drefn gynllunio a sut mae'n gweithio. Roisin yn awgrymu bod tair thema allweddol ynghlwm wrth y modd y mae pobl yn ymateb i'r drefn gynllunio, sef:<br>• Gofynion o ran polisi neu ddeddfwriaeth (er enghraifft, y rheoliadau ar ffosffadau)<br>• Canfyddiadau (er enghraifft, tai parod)<br>• Hyfywedd (er enghraifft, prisiau tir) |
| Sesiwn drafod | Bonnie Williams yn gofyn pa ysgogiadau sydd ar waith i alluogi cymdeithasau tai i gaffael y safleoedd cywir at ddibenion datblygu. Bonnie hefyd yn galw ar y grŵp trawsbleidiol i arddel dull polisi sy'n seiliedig ar sicrhau bod awdurdodau lleol yn fwy rhagweithiol o ran y modd y maent yn dosbarthu tir, yn hytrach na mabwysiadu meddylfryd adweithiol, sydd wedi caniatáu i ddatblygwyr adeiladu ar safleoedd maes glas rhatach. |

| | |
|---|---|
| | Roisin yn nodi mai cynlluniau datblygu lleol yw'r ateb, ond yn rhybuddio bod awdurdodau lleol yn wynebu trafferthion o ran adnoddau, ac y byddai agwedd fwy rhagweithiol yn ysgogi newid mawr o ran yr hyn y mae tirfeddiannwr ei angen / eisiau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun tirfeddianwyr cyhoeddus, y mae gofyn iddynt gael y gwerth gorau wrth werthu eu tir. Bonnie yn holi a yw'r gwerth gorau, o reidrwydd, yn golygu darparu'r hyn sydd ei angen.<br><br>Andrea Lewis yn cytuno â phwynt Bonnie, ac yn holi sut y gallwn sicrhau bod safleoedd llai, yn hytrach na datblygiadau mawr sy'n cynnwys 200 o unedau, yn cael y sylw y maent yn ei haeddu. Mark Harris yn nodi bod safleoedd tir llwyd wedi'u lleoli o fewn ardaloedd trefol, ac felly nad oes angen eu dyrannu yn y cynllun, ond yn dadlau, serch hynny, fod angen system gynllunio o hyd.<br><br>Hugh Russell yn sôn am gynllun gan sefydliad Bunker yn ninas Brighton, a wnaeth arwain at droi safle tipio anghyfreithlon lleol yn safle ar gyfer tai sy'n eiddo i'r gymuned. Hugh yn ychwanegu bod y gwrthdaro rhwng gwerth cymdeithasol a gwerth gorau wedi bod yn broblem ers tro, a bod y broblem hon yn gwaethygu.<br><br>Jennie Bibbings yn holi beth y gellir ei wneud i gryfhau cytundebau Adran 106 rhwng awdurdodau lleol a datblygwyr, sydd yn aml yn cael eu glastwreiddio. Roisin yn egluro bod Adran 106 yn ymwneud â sicrhau bod y cais cynllunio dan sylw yn dderbyniol o safbwynt cynllunio. Roisin yn nodi bod datblygwyr, yn ystod y cyfnod pan oeddent ar eu hanterth, wedi bod yn hapus i ddarparu ychwanegion mewn cyfnod o elw mawr. Roisin yn cyfeirio at gost gynyddol tir fel un o'r rhesymau pam fod y cytundebau hyn yn aml yn cael eu glastwreiddio gan ddatblygwyr. Roisin yn dadlau bod angen awdurdodau lleol cryf er mwyn sicrhau ad-daliadau sylweddol.<br><br>Steve Porter yn dadlau nad yw lleisiau aelodau'r cyhoedd yn cael eu clywed i'r un graddau â lleisiau datblygwyr. Roisin yn nodi nad yw'n anghytuno â'r asesiad hwnnw o'r sefyllfa, ond yn ailadrodd y ffaith bod awdurdodau lleol yn wynebu trafferthion o ran adnoddau. Roisin hefyd yn nodi ei bod yn aml yn anodd iawn i'r cyhoedd wrthwynebu ceisiadau am ddau brif reswm:<br><br>• Unwaith y caiff cais ei gyflwyno, mae'n fater o benderfynu a yw'r cais yn cael ei gymeradwyo neu ei wrthod.<br>• Yn ail, mae'r drefn gynllunio yn gymhleth, ac nid oes gan y cyhoedd y ddealltwriaeth sydd ei hangen arnynt i allu craffu ar ddatblygiad a chael effaith ar y broses.<br><br>Mark Harris yn nodi bod y cyhoedd yn gwrthwynebu cynlluniau tai, hyd yn oed cynlluniau ar gyfer tai fforddiadwy, yn syndod o aml. Mark hefyd yn nodi ei bod yn aml yn wir mai safleoedd mewnlenwi, lle mae newid defnydd yn cael ei gynnig, yw'r achosion mwyaf dadleuol. |
| Cloi'r cyfarfod | Delyth Jewell AS yn diolch i'r siaradwyr ac i bawb sy'n bresennol. Delyth yn atgoffa pawb, os oes ganddynt unrhyw syniadau yr hoffent weld y grŵp yn eu trafod, i anfon e-bost at Jennie Bibbings. |

| | |
|---|---|
| | Delyth Jewell AS yn atgoffa'r rhai sy'n bresennol y bydd Shelter Cymru yn darparu crynodeb o'r cyfarfod hwn, yn ogystal â recordiad ohono, maes o law, ac yna'n dod â'r cyfarfod i ben. |
| Dyddiad y cyfarfod nesaf: | I'w gadarnhau |